Rhif: **WG15005**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Rheoliadau drafft Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2011

Dyddiad cyhoeddi: **Mawrth 2012**

# Rheoliadau drafft Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2011

**Cynulleidfa** Awdurdodau lleol, ysgolion, rhieni a phobl berthnasol eraill.

**Trosolwg** Roedd y ddogfen ymgynghori yn ceisio safbwyntiau ar reoliadau drafft a oedd yn nodi gweithdrefnau sy’n ymwneud ag apelau anghenion addysgol arbennig (AAA) a hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd mewn addysg a wneir i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

Roedd y rheoliadau drafft yn cydgrynhoi ac yn diwygio’r pedair set gyfredol o reoliadau sy’n berthnasol i apelau AAA a hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd yn un darn o ddeddfwriaeth gynhwysfawr hawdd ei ddefnyddio.

Mae’r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o’r ymatebion a ddaeth i law.

**Camau i’w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth** I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3003
Ffacs: 029 2080 1044
e-bost: AdditionalLearningNeedsBranch@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae’r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

**Dogfennau cysylltiedig** Dim.

ISBN digidol 978 0 7504 7233 2
© Hawlfraint y Goron 2012

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyniad | | 1 |
| Cwestiwn 1: | Yr Amcan Pennaf | 1 |
| Cwestiwn 2: | Cais i Apelio a gwneud Honiad (Rheoliadau 13 a 14) | 2 |
| Cwestiwn 3: | Llais y Plentyn (Rheoliad 26(a)(vii)) | 3 |
| Cwestiwn 4: | Ffrindiau achos (Rheoliadau 63–68) | 4 |
| Cwestiwn 5: | Cyffredinol | 5 |

## Cyflwyniad

Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn pobl ar y Rheoliadau drafft sy'n nodi gweithdrefnau sy'n ymwneud ag apeliadau anghenion addysgol arbennig (AAA) a honiadau am wahaniaethu ar sail anabledd mewn addysg a wnaed i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC).

Gwnaeth y Rheoliadau drafft archwilio'r pedair set bresennol o reoliadau sy'n gymwys i apeliadau AAA a honiadau am wahaniaethu ar sail anabledd a'u cyfuno yn un darn cynhwysfawr o ddeddfwriaeth sy'n hawdd ei ddefnyddio.

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 6 Gorffennaf 2011 a daeth i ben ar 12 Awst 2011. At ei gilydd, cafodd Llywodraeth Cymru 23 o ymatebion oddi wrth ystod eang o randdeiliaid.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion a gafwyd yn gadarnhaol iawn a phob un yn croesawu'r bwriad o gynnwys amcan cyffredin. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn ymwneud â chwmpas neu effaith y darpariaethau ac awgrymwyd rhai mân newidiadau. Amlygir y prif bwyntiau a godwyd gan yr ymgynghoriad fel a ganlyn gydag ymateb Llywodraeth Cymru.

## Cwestiwn 1: Yr Amcan Pennaf

a. Beth yw eich barn ar gymhwyso'r amcan pennaf mewn ffordd ymarferol?
b. A oes unrhyw anawsterau ymarferol amlwg?
c. A ydych yn credu y bydd yn cryfhau ethos cydweithredu?
ch. A allai hyn gael ei gryfhau ymhellach?

### Sylwadau

Cafodd y bwriad o gynnwys yr amcan pennaf yn y Rheoliadau (rheoliad 6) ei groesawu'n frwd gan y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr. Cytunodd bron pob un ag ethos cydweithredu ac â'r nod o sicrhau yr ymdrinnir ag apeliadau a honiadau yn deg ac yn gyfiawn.

Nid awgrymodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw anawsterau ymarferol amlwg gyda'r amcan pennaf. Awgrymodd rhai y gallai anawsterau godi gyda'r terfynau amser cyfredol er mwyn caniatáu i'r broses fodloni'r dyheadau i fod yn deg ac yn gyfiawn, sef bod pum diwrnod yn gyfnod byr o amser i ganiatáu ar gyfer gwneud newidiadau i apêl.

Yn gyffredinol, cytunwyd y bydd yr amcan pennaf yn cryfhau ethos cydweithredu.

Fodd bynnag, awgrymwyd rhai ffyrdd o gryfhau'r amcan pennaf. Awgrymwyd y dylai Llywydd TAAAC ac aelodau'r panel feddu ar wybodaeth ymarferol o'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogi. Cytunodd rhai hefyd fod angen sicrhau bod y plant hynny a all ddeall yn cael y wybodaeth berthnasol a chywir. Yn yr un modd awgrymwyd bod teuluoedd sy'n dymuno bwrw ati gydag achos yn cael gwybodaeth a chyfarwyddiadau mewn fformat sy'n briodol i'w hanghenion.

Yn ogystal â hyn, awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys plant ar gam cynnar o ran eu AAA a'r ddarpariaeth ar ei gyfer a bod ffrindiau'r achos yn cynrychioli safbwyntiau'r plentyn yn gywir.

Yn olaf, awgrymwyd bod TAAAC yn cael grym pendant i weithredu yn erbyn parti lle mae'r ddarpariaeth o bosibl wedi ei thorri'n amlwg o ran rheoliad 6.

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gynyddu'r cyfnod a nodir yn yr hysbysiad sydd naill ai'n gwneud sylwadau ysgrifenedig neu'n gofyn am gyfle i wneud sylwadau llafar. Cynyddwyd hyn o bum diwrnod gwaith i 10 diwrnod gwaith.

Bydd disgwyl i'r awdurdodau lleol a fydd yn treialu hawl y plentyn i apelio a gwneud honiad sicrhau bod plant yn cael gwybodaeth gywir a hawdd ei deall. Yn yr un modd bydd angen i awdurdodau lleol ystyried adolygu eu gwybodaeth bresennol i sicrhau bod ei fformat yn briodol i anghenion teuluoedd sy'n dymunod bwrw ati gydag achos.

Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fel rhan o'r diwygiadau i'r broses statudol gyfredol ar gyfer nodi a chysylltu â phlant ag AAA a gwneud darpariaeth ar eu cyfer. Disgwylir i'r dull gweithredu hwn gynnwys sicrhau bod plant sydd ag AAA yn cael eu cynnwys ar gam cynnar yn eu proses ac y caiff eu safbwyntiau eu hystyried wedi hynny. Bydd angen i'r ddyletswydd o ran hawliau plant i apelio a gwneud honiad gymhwyso'r dull gweithredu hwn pan fydd y diwygiadau wedi eu gweithredu.

## Cwestiwn 2: Cais i Apelio a gwneud Honiad (Rheoliadau 13 a 14)

A oes unrhyw ofynion y dylid eu hychwanegu at y cais i apelio neu wneud honiad neu eu dileu ac os felly beth ydynt?

**Sylwadau**

Ni chynigiodd y mwyafrif helaeth o'r ymatebion unrhyw newidiadau i'r cais i apelio a gwneud honiad. O blith y rhai a gafwyd, awgrymwyd newidiadau tebyg.

Cyfeiriodd nifer o'r ymatebion at y ffaith nad yw'n bosibl bob amser i blentyn na hyd yn oed oedolyn gyflwyno apêl yn ysgrifenedig. Awgrymodd llawer y dylid ystyried ffyrdd amgen o gyflwyno hyn, er enghraifft, drwy gyfrwng fideo.

Awgrymodd rhai, yn ogystal â rhoi diagnosis meddygol o anabledd y plentyn fel rhan o'r cais, y dylai gwybodaeth yn nodi sut mae'r anabledd yn effeithio ar y plentyn yn yr ysgol gael ei rhoi hefyd, os yw'r plentyn yn fodlon i'r wybodaeth gael ei rhoi. Byddai hyn yn unol â'r model anabledd cymdeithasol.

Codwyd y mater ynghylch enwi rhiant absennol a hysbysu'r person hwn sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, sy'n rhannu'r cyfrifoldeb hwnnw neu sy'n gofalu am y plentyn. Pe bai'n rhaid hysbysu rhiant naturiol (nad yw'n rhan o fywyd y plentyn o

bosibl) o'r cais i apelio neu wneud honiad yna awgrymwyd, pan fydd rhiant gofalgar yn gofyn amdano, y dylai TAAAC wneud y cysylltiad gan sicrhau cyfrinachedd llwyr.

**Ymateb**

Bydd disgwyl i'r awdurdodau lleol a fydd yn treialu hawl y plentyn i apelio a gwneud honiad ystyried sicrhau bod y cais ar gael yn eang i ddarparu ar gyfer y rheini na fyddant yn gallu gwneud cais o bosibl drwy ysgrifennu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddiwygio Rheoliad 13 i roi'r opsiwn i'r ymgeisydd beidio ag enwi'r unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, sy'n rhannu'r cyfrifoldeb hwnnw neu sy'n gofalu am y plentyn. Fodd bynnag, newidiwyd hyn i nodi, mewn achosion lle mae'r ymgeisydd yn dewis peidio â darparu'r wybodaeth hon, fod yn rhaid i'r cais nodi'r rhesymau pam na ddarperir enwau a chyfeiriadau unigolion o'r fath.

Yn yr un modd lle y nodwyd yn flaenorol bod yn rhaid i'r cais i apelio gael ei ategu gan gadarnhad ysgrifenedig bod yr unigolyn sy'n apelio wedi hysbysu'r unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, sy'n rhannu'r cyfrifoldeb hwnnw neu sy'n gofalu am y plentyn, gall yr ymgeisydd ddewis peidio â hysbysu'r unigolyn ond rhaid iddo ddarparu cadarnhad ysgrifenedig yn esbonio pam nad yw'r unigolyn sy'n gwneud y cais wedi cael ei hysbysu.

## Cwestiwn 3: Llais y Plentyn (Rheoliad 26(a)(vii))

a. A ydych yn cytuno bod unigolyn sy'n rhoi llais i'r plentyn yn ychwanegiad buddiol? Rhowch resymau.
b. A oes unrhyw anawsterau ymarferol ynghlwm wrth ganiatáu i'r ddwy ochr enwi unigolyn a all roi llais i'r plentyn ac os felly, beth ydynt?

**Sylwadau**

Cytunodd pob ymatebydd fod unigolyn sy'n rhoi llais i'r plentyn, lle bo'n briodol, yn ychwanegiad buddiol. Mae llawer o'r ymatebion yn cydnabod pwysigrwydd ystyried barn y plentyn fel rhan o'r broses tribiwnlys.

Er i bawb groesawu'r ychwanegiad hwn, roedd nifer fawr o ymatebion a dynnodd sylw at anawsterau ymarferol caniatáu i'r ddwy ochr enwi unigolyn a all roi llais i'r plentyn. Awgrymodd llawer y gallai anawsterau godi os bydd y ddwy ochr yn enwebu unigolyn gwahanol. Hefyd y gall y rhai a enwebir gyflwyno barn wahanol a allai fod yn anghyson â'i gilydd. Awgrymodd rhai y dylai TAAAC, mewn amgylchiadau o'r fath, gymryd y cyfrifoldeb yn y pen draw am ddatrys cyd-destun a dilysrwydd y safbwyntiau a fynegwyd.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y gall y plentyn deimlo dan bwysau i ymateb yn y ffordd y mae'r unigolyn am iddo ymateb os yw'r unigolyn a enwebir gan y ddwy ochr yn rhoi llais i'r plentyn. Awgrymodd rhai hefyd y gall dryswch godi o bosibl rhwng rôl y ffrind achos, llais y plentyn a'r eiriolwr annibynnol ac y gallai cyflwyno pobl ychwanegol olygu bod y plentyn yn teimlo dan bwysau.

Cydnabuwyd ei bod yn bwysig i'r rhai a benodir i weithredu fel llais y plentyn allu cyfathrebu'n effeithiol â'r unigolyn ifanc. Awgrymwyd hefyd bod y rheoliadau'n cael eu newid fel bod TAAAC yn gofyn a oes angen cymorth cyfathrebu ar y parti neu dyst.

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr ymatebion a gafwyd i gwestiwn 3. Rhagwelir y bydd y cynllun peilot ar hawliau'r plentyn i apelio a gwneud honiad yn datrys y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r dyletswyddau newydd a osodwyd, gan gynnwys profi ymarferoldeb caniatáu i'r ddwy ochr enwi rhywun a all roi llais i'r plentyn. Y gobaith yw sicrhau y daw'r gwahaniaeth pendant rhwng rôl y ffrind achos, llais y plentyn a'r eiriolwr annibynnol yn glir yn ystod y cynllun peilot.

## Cwestiwn 4: Ffrindiau achos (Rheoliadau 63–68)

a. A oes unrhyw ofynion eraill y dylai unigolyn eu bodloni er mwyn gweithredu fel ffrind achos? Os felly, beth ydynt?
b. A oes unrhyw amgylchiadau eraill a ddylai fod yn gymwys i rywun weithredu fel ffrind achos ac os oes, beth ydynt?
c. A ddylid sicrhau bod meini prawf gwahanol ar gyfer ffrindiau achos 'proffesiynol'*?

**gallai hyn fod yn wasanaeth sy'n darparu unigolion i weithredu fel ffrindiau achos.*

**Sylwadau**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ar ofynion yr unigolyn sy'n gweithredu fel ffrind achos. Awgrymodd rhai pa mor bwysig oedd bod yn ddiduedd wrth gynrychioli'r plentyn ond roedd eraill yn fodlon i aelodau'r teulu weithredu fel cynrychiolydd. Cytunodd llawer ei bod yn bwysig i'r ffrind achos gynrychioli barn a dymuniadau'r plentyn ac nid eu barn a'u dymuniadau hwy. Amlygodd rhai yr angen i allu cyfathrebu'n effeithiol â'r plentyn a holi ei farn ar yr achos.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r ffrind achos ddeall hanes addysgol blaenorol y plentyn er mwyn bod yn addas i weithredu yn y rôl hon. Yn yr un modd, awgrymodd eraill y dylai'r ffrind achos wybod digon am anghenion y plentyn. Awgrymwyd y dylid caniatáu i blentyn benodi ffrind achos yn nes ymlaen yn yr achos os oedd yn dymuno gwneud hynny. Awgrymwyd hefyd bod yr unigolyn sy'n gweithredu fel ffrind achos yn gallu cael gafael ar ganllawiau, cymorth a chyngor cyfreithiol. Yn ogystal â hyn, awgrymwyd bod yr unigolyn sy'n gweithredu yn y rôl hon yn deall y broses tribiwnlys.

Cytunodd sawl un o'r ymatebwyr y dylid sicrhau bod meini prawf gwahanol ar gael ar gyfer rôl ffrind achos proffesiynol, y mae rhai ohonynt yn ffafrio defnyddio pobl broffesiynol. Awgrymodd rhai y dylai'r ffrind achos proffesiynol fod wedi cymhwyso neu'n gorfod ennill y cymwysterau priodol, a fyddai'n cynnwys deall anableddau, anghenion addysgol arbennig a'r modd yr oedd TAAAC yn gweithredu. Awgrymwyd bod yn rhaid i'r ffrind achos proffesiynol fod yn annibynnol ar yr awdurdod lleol.

Yn ogystal â hyn, awgrymodd llawer y dylai unrhyw sefydliad sy'n recriwtio pobl i weithredu fel ffrind achos proffesiynol gael polisïau diogelu cadarn ar waith. Awgrymodd rhai y dylid cynnal gwiriad CRB ar gyfer y rhai sy'n gweithredu yn y rôl hon. Yn yr un modd, awgrymodd eraill y byddai angen i ffrindiau achos nad ydynt yn bobl broffesiynol gael gwiriad CRB ond nid o reidrwydd ar gyfer aelodau agos o deulu'r plentyn.

**Ymateb**

Ers lansio'r ymgynghoriad hwn, mae Llywodraeth glymblaid y DU wedi nodi y bydd yn diddymu adran 8 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 drwy'r Bil Diogelu Rhyddidau. Yn flaenorol roedd Adran 8 yn caniatáu i'r unigolyn weithredu fel ffrind achos os oedd yn ofynnol i'r unigolyn gael ei fonitro gan yr Awdurdod Diogelu Annibynnol. Fel y cyfryw, mae Llywodraeth Cymru wedi dileu'r cyfeiriad ato yn Rheoliadau TAAAC.

I gydnabod y camau diogelu annigonol o ganlyniad i'r diddymiad arfaethedig hwn a'r sylwadau a gafwyd i'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys darpariaethau newydd yn Rheoliadau TAAAC. Bydd effaith rheoliad 66(4) a (5) yn golygu y bydd unigolyn sy'n dymuno gweithredu fel ffrind achos yn gorfod cyflwyno tystysgrif datgeliad manylach i TAAAC a roddir gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cadarnhau bod yr unigolyn hwnnw'n addas i weithio gyda phlant. Ni fydd y gofyniad hwn yn gymwys fodd bynnag i unigolyn sy'n rhiant i'r plentyn, yn llys-riant, brawd, chwaer, nain neu taid, ewythr, modryb, nai neu nith. Ni fydd yn gymwys ychwaith mewn achosion lle mae rhiant y plentyn yn caniatáu i'r unigolyn weithredu fel y ffrind achos, er enghraifft, lle mae'r rhiant yn cytuno i ffrind teuluol weithredu fel y ffrind achos.

Yn ogystal, cafodd rheoliad 66(6) ei gynnwys a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gofnodi rhif y dystysgrif datgeliad a'i dyddiad dechrau a gorffen ar gofrestr TAAAC. Mae Rhan ii o'r rheoliad hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Ysgrifennydd y Tribiwnlys ddefnyddio'r gwasanaeth recorded delivery i ddychwelyd y dystysgrif at yr unigolyn.

## Cwestiwn 5: Cyffredinol

Rydym wedi gofyn cyfres o gwestiynau penodol.  Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig, nad ydym eisoes wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y bwlch isod i'w cofnodi.

**Sylwadau**

Roedd nifer fawr o faterion cysylltiedig yr hysbyswyd Llywodraeth Cymru ohonynt yn yr ymgynghoriad hwn.

Roedd awgrymiadau bod y ddogfen ymgynghori ei hun yn gymhleth ac nad oedd yn hawdd ei darllen. Awgrymwyd y dylid llunio dogfennau sy'n hawdd i blant eu darllen. Yn gysylltiedig â hyn roedd awgrymiadau y gallai'r derminoleg a ddefnyddir mewn rhai rhannau gael ei newid. Awgrymodd rhai y gallai'r terfynau amser fod yn gliriach yng nghorff y rheoliadau.

Awgrymwyd bod angen sicrhau bod hyfforddiant ar gael i bob aelod o'r panel addysg ar blant anabl, deddfwriaeth cydraddoldeb ac ysgolion. Argymhellodd eraill y dylai gwybodaeth aelodau'r panel addysg gynnwys profiad o weithio gyda phlant. At hynny, codwyd y mater ynghylch hyfforddi eiriolwyr gan awgrymu bod angen buddsoddi mwy mewn hyfforddi'r rheini sy'n gweithredu yn y rôl hon i sicrhau y gallant ganfod hoff ddewisiadau plant a phobl ifanc. Awgrymwyd hefyd y dylid sicrhau bod rôl yr eiriolwr yn fwy clir.

Gwnaeth rhai o'r ymatebwyr dynnu sylw at bryderon posibl o ran costau sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn. Cododd rhai bryderon am y drefn costau y mae gan Lywydd neu Gadeirydd y panel tribiwnlys y grym i'w dyfarnu. Awgrymwyd y gallai hyn olygu y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol dalu costau ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol. Awgrymwyd hefyd y dylai costau a ddyfernir adlewyrchu costau ychwanegol yn unig yn deillio o weithred neu hepgoriad yr unigolyn ac nid cyfanswm costau'r apêl ac y dylai hyn fod yn eglur. Awgrymwyd hefyd y bydd cymhwyso'r ddyletswydd Hawliau Plant yn gostus i awdurdodau lleol sy'n sicrhau bod gwasanaethau eirioli ar gael i helpu plant a phobl ifanc yn y broses ddatrys, yn ogystal â pharatoi plant a phobl ifanc ar gyfer gwrandawiadau a rhoi cymorth iddynt.

O ran y Gwasanaeth Datrys Anghytundebau, argymhellwyd bod gweithdrefnau'n cael eu mabwysiadu i sicrhau bod plant a rhieni yn deall effeithiau prosesau datrys amgen ac i sicrhau, os cymhwysir gweithdrefnau datrys anghytundebau amgen, eu bod er budd y plentyn. Yn yr un modd awgrymwyd y dylid darparu canllawiau i egluro gweithdrefnau datrys anghytundebau. Awgrymwyd hefyd y dylid pennu cyfnod gofynnol ar gyfer y Gwasanaeth Datrys Anghytundebau a bod hyn yn orfodol.

Awgrymwyd y gallai anawsterau godi yn achos plant sy'n derbyn gofal ac sydd ag AAA. Gallai gwrthdaro godi o bosibl pan fydd gweithiwr cymdeithasol gofalwr maeth sydd efallai yn gweithredu fel y ffrind achos yn cael ei gyflogi yn y bôn gan yr awdurdod lleol.

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y materion cysylltiedig a amlygwyd gan yr ymatebwyr a bydd yn sicrhau bod y materion a godwyd yn cael eu hystyried yn ystod cynllun peilot y ddyletswydd hon.

Bydd TAAAC yn sicrhau bod deunyddiau ar gael sy'n hawdd i blant sy'n dymuno apelio neu wneud honiad eu darllen. Yn yr un modd, bydd disgwyl i awdurdodau lleol sy'n treialu'r ddyletswydd sicrhau bod y wybodaeth ar gael yn eang i ddarparu ar gyfer anghenion plant.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Prosiect Ymchwil Weithredu i graffu'n fanwl ar y cynlluniau peilot a bydd hyn yn cydredeg â'r cynlluniau peilot am o leiaf y ddwy flwyddyn gyntaf. Bydd asesiadau meintiol ac ansoddol y Prosiect Ymchwil Weithredu yn seiliedig ar brofiadau'r rheini dan sylw a bydd y wybodaeth yn helpu i newid modelau arfer da yng ngoleuni profiadau'r awdurdodau peilot i lywio'r broses gyflwyno fesul cam ledled Cymru.

Mae'n orfodol i awdurdodau peilot gydweithredu â'r Prosiect Ymchwil Weithredu a rhoi'r cyfryw wybodaeth ag sy'n ofynnol iddo.